Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **22 Mai 2018** |
| **Amser:** | **09:00 – 12:15** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Yr Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/04/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad ynghylch cynnydd** |
| **PB 2275** | **Y Rhingyll Ian Price a'r Rhingyll Owen Dillon i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 22/5/2018 i roi cyflwyniad ar Ddiogelwch y Ffyrdd ac Ymgyrch Darwen.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2276** | **Anfon llythyr at Arolygydd Heddluoedd EM Wendy Williams i ddiolch iddi ac ymddiheuro nad yw'r CHTh yn medru cwrdd â hi ar 3/5/2018. Dylai'r llythyr ddweud bod Sarah Cooper, Swyddog Cyswllt AHEM, yn ymweld â Hwlffordd ar 15/5/2018.** | **Ar waith** |
| **PB 2277** | **Drafftio ymateb ar y cyd ar gyfer y Gweinidogion Plismona.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 22/05/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 68** | **Mae'r CHTh yn fodlon i'r cytundebau gael eu cymeradwyo gyda golwg ar ymholiadau'n cael eu cytuno gyda'r PSA. Y cytundebau yw'r cytundeb Aelodau Blynyddol Cymorth Diogelwch y Ffyrdd a'r Cytundeb Gwasanaethau Proffesiynol Datrysiad Wrth Gefn TGCh.** | **PSA** |
| **PB T2 69** | **AD a Chyllid i fod yn eitemau agenda sefydlog ar agenda'r BP.** | **MH/GB** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

PB 2271 – Yr Heddlu i sicrhau bod polisi gweithredol ar gyfer defnyddio'r bloc llety ym Mhencadlys yr Heddlu. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a'r Cyfarwyddwr Ystadau (CY) Heddwyn Thomas (HT) wedi darparu gwybodaeth sy'n dangos nad oedd y bloc llety, sydd newydd ei adnewyddu, wedi'i ddefnyddio i'r eithaf ym mis Mawrth a mis Ebrill. Roedd llety allanol dal yn cael ei ddefnyddio. Sicrhaodd y DBG y CHTh y byddai Uwch Reolwr Dysgu a Datblygu HDP yn cyflawni darn o waith erbyn 4 Mehefin er mwyn sicrhau bod y bloc llety'n cael ei reoli'n briodol.

**Cam Gweithredu: Datblygu Polisi Heddlu mewn perthynas â defnyddio'r bloc llety ym Mhencadlys yr Heddlu.**

Holodd y PSA pa un ai a yw HDP wedi drafftio Polisi Diswyddo Gwirfoddol ar gyfer ei swyddogion a'i staff. Dywedodd y DBG bod cyfarfodydd wedi'u trefnu gydag Adnoddau Dynol (AD) a'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn trafod dewisiadau ar gyfer y polisi. Nodwyd y byddai Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl, Steve Cadenne (SC), yn paratoi drafft maes o law a fyddai'n cynnwys ystyriaeth o'r oblygiadau ariannol.

**Cam Gweithredu: Gwasanaethau Pobl i gyflwyno'r polisi Diswyddo Gwirfoddol drafft i SCHTh.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gwirfoddol

Diweddarodd y DBG y Bwrdd ynghylch nifer o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, sawl ymosodiad ar draws yr ardal heddlu, a materion gweithredol eraill. Cydnabu'r CHTh yr amrediad eang o waith sy'n digwydd ledled yr ardal heddlu a maint rhagweithgarwch swyddogion.

### Diweddariadau Sefydliadol

Cyfeiriodd y DBG at y sioeau teithiol a gynhaliwyd ar gyfer swyddogion a staff mewn gorsafoedd ledled yr ardal heddlu a dywedodd fod llawer wedi bod yn bresennol hyd yn hyn. Mae dwy sioe deithiol wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos hon - un yn Aberteifi a'r llall yn Aberhonddu. Nodwyd bod Wendy Williams AHEMGTA yn bresennol yn y sioe deithiol a gynhaliwyd ym Mhencadlys yr Heddlu.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau a rolau uwch swyddogion. Nodwyd bod angen darparu goruchwyliaeth weithredol ac arweinyddiaeth ar brosiectau allweddol er mwyn cynnal cyflenwi cynlluniau'n effeithiol. Byddai trafodaeth bellach mewn perthynas â hyn yn cael ei chynnal adeg Diwrnod i Ffwrdd SCHTh/Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar 5 Mehefin 2018.

**Cam Gweithredu: Y Comisiynydd i dderbyn cynllun y PG mewn perthynas â strwythur a nifer yr Uwch Swyddogion (DBG a Phrif Uwch Arol.)**

## 4. Diweddariad CHTh

**Lleol**

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd y byddai'n mynd i Eisteddfod yr Urdd wythnos nesaf, ac ar ôl hynny, byddai'n ymweld â gorsafoedd ym Mhowys a Sir Benfro.

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynghylch cyfarfod o'r Panel Heddlu a Throseddu a gynhaliwyd ar 18 Mai yn Hwlffordd. Ystyriodd y Panel amrediad o faterion yn y cyfarfod hwnnw, gan gynnwys pryderon o ran ariannu yn y dyfodol mewn perthynas â'r Rhaglen Cyswllt Ysgolion, perfformiad yr Heddlu, a phenderfyniadau a gymerwyd gan y PC yn ystod y chwarter diwethaf.

**Cenedlaethol**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i bresenoldeb mewn cyfarfodydd cenedlaethol amrywiol yr wythnos flaenorol, gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Bwrdd Plismona Digidol.

**5. Pwnc Trafod y Mis: Plismona'r Ffyrdd ac Ymgyrch Darwen**

Diweddarodd y Rhingyll Owen Dillon (OD) y Bwrdd ynglŷn ag Ymgyrch Darwen, sef cynllun a weithredir ar draws yr ardal heddlu er mwyn codi ymwybyddiaeth gyrwyr a beicwyr modur am gyflymder, gyda golwg ar leihau nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â ffyrdd yn Nyfed-Powys (DP). Mae gweithgarwch yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd lleol i addysgu a hysbysu.

Nodwyd bod swyddogion Ymgyrch Darwen hefyd yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Gwasanaethau Tân ac Asiantaethau Cefnffyrdd. Dywedodd OD bod staff plismona'r ffyrdd yn defnyddio pecynnau diogelwch sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Ambiwlans ac yn hyfforddi swyddogion i ddefnyddio offer rhag ofn y bydd angen cynorthwyo defnyddiwr ffyrdd sydd wedi'i anafu'n ddifrifol. Nodwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn i swyddogion deimlo'n fedrus a hyderus wrth ymdrin â sefyllfaoedd sydd o bosibl yn argyfyngus.

Dywedodd OD bod Ymgyrch Darwen wedi bod yn cydweithio â grwpiau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned a defnyddio'u hamlygrwydd i godi ymwybyddiaeth gyrwyr sy'n goryrru ynglŷn â therfynau cyflymder. Mae cydweithrediadau eraill yn cynnwys gwaith gyda heddluoedd eraill Cymru. Nododd OD nad oedd y cydweithrediadau hyn yn effeithiol ar hyn o bryd, ond mae gwaith yn digwydd er mwyn gwella'r sefyllfa.

Dywedodd OD bod Ymgyrch Darwen yn cael ei hyrwyddo o fewn yr heddlu fel ymgyrch sy'n cael ei chynnal ar draws yr ardal heddlu.

Rhoddodd y Rhingyll Ian Price (IP) o fudiad Gan Bwyll drosolwg o rôl a swyddogaeth Gan Bwyll a sut y mae'n cynnal cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r sefydliad yn gweithio gydag Asiantaethau Cefnffyrdd a Thimoedd Diogelwch yn y pedair sir, fodd bynnag, nododd IP bod y pedair sir yn cael eu haildrefnu yn y dyfodol agos gydag oblygiadau posibl ar gyfer cyllid.

Cysylltodd IP weithgarwch Gan Bwyll â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu:

Blaenoriaeth 1 – Cadw Ein Cymunedau'n Ddiogel
Dywedodd IP fod Gan Bwyll yn cadw cymunedau'n ddiogel trwy sefydlu safleoedd gweithredol ar hyd ffyrdd DP a thrwy gynorthwyo grwpiau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned a Thimoedd Plismona Bro (TPB) i gynnal ymgyrchoedd gorfodi.

Cyfeiriodd IP ar ralïau haf sydd ar fin cael eu cynnal ar y ffordd. Bydd faniau Gan Bwyll yn bresennol er mwyn addysgu gwylwyr am yrru diogel.

Blaenoriaeth 2 – Diogelu'r Rhai Sy'n Agored i Niwed
Mae swyddogion yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn diogelu gyrwyr oedrannus a allai fod angen cymorth o ran defnyddio'r ffordd.

Blaenoriaeth 3 – Diogelu Rhag Niwed Difrifol
Dywedodd IP mai damweiniau traffig y ffyrdd sy'n lladd y rhan fwyaf o bobl 0 – 19 oed ym Mhrydain, gyda 405 o bobl ifainc yn colli eu bywydau yn 2015. Mae gwaith yn digwydd mewn ysgolion, er enghraifft, yr ymgyrch 20au (mae 20 yn ddigon), gan godi ymwybyddiaeth athrawon a rhieni. Dywedodd IP fod cerbydau Gan Bwyll wedi'u gosod â systemau adnabod rhifau ceir yn awtomatig. Cyfeiriodd IP at Ymgyrch Tutelage, a drefnwyd gan Heddlu Dyffryn Tafwys yn 2017, lle yr anfonwyd llythyrau at yrwyr heb yswiriant yn hytrach na'u herlyn, gan arwain at 80% o 2000 o yrwyr yn cydymffurfio dros gyfnod o 6 mis. Dywedodd IP fod gan Swyddogion Gan Bwyll gamerâu fideo a wisgir ar y corff. Cafwyd trafodaeth ynghylch pa un ai a ddylai swyddogion gorfodi gael pwerau ymchwilwyr, a goblygiadau ariannol hynny. Mae trafodaethau tebyg wedi'u cynnal ar lefel genedlaethol.

Cyfeiriodd IP at Ymgyrch Snap, lle mae aelodau o'r cyhoedd yn uwchlwytho darnau ffilm a recordiwyd ar gamerâu dangosfwrdd sy'n dangos gyrru peryglus i borth mewnrwyd yr heddlu ar gyfer ystyriaeth. Ers ei lansio yn 2017, mae'r porthol yn Nyfed-Powys wedi derbyn 226 darn ffilm. Cododd y CHTh ymholiad gan aelod o'r cyhoedd, a oedd yn holi pam na ellir defnyddio darnau ffilm o gamerâu'r cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned ar gyfer Ymgyrch Snap. Dywedodd IP nad oedd eu dyfeisiau'n cydymffurfio â chanllawiau'r Swyddfa Gartref, felly nid oedd modd eu defnyddio. Hefyd, byddai camau gweithredu o'r fath yn rhoi pwerau gorfodi i'r grwpiau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned, gan gynnwys gorfodaeth i roi tystiolaeth yn y llys. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn ddewis ymarferol.

Blaenoriaeth 4 – Cysylltu â Chymunedau
Dywedodd IP bod sawl strategaeth mewn grym ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Ymgysylltwyd â chymunedau lleol er mwyn sefydlu pa un ai a oes problem barhaus ar ddarn penodol o ffordd, a beth ellir gwneud am y mater.

Mae Gan Bwyll yn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad hygyrch i'r gwasanaeth; mae gan grwpiau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned ddyfeisiau llaw er mwyn recordio delweddau o gerbydau, ac mae'r lifrai ar gyfer aelodau'r cynllun yr un fath ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru er mwyn sicrhau cysondeb ar

draws y wlad. Mae’r gwaith wedi arwain at adborth cadarnhaol ar gyfryngau cymdeithasol. Holodd y CHTh pa un ai a oes Cynhadledd Diogelwch y Ffyrdd yng Nghymru er mwyn bwydo i mewn i Gynhadledd Genedlaethol, a holodd pa un ai a allai cynrychiolwyr o’r cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned fynd i’r gynhadledd.

**Cam Gweithredu: Sefydlu uwch swyddog arweiniol ar gyfer Ymgyrch Darwin o fewn yr Adran Gweithrediadau Arbenigol.**

**Cam Gweithredu: Llythyr i’w ddrafftio ar gyfer Cydlynydd Cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned Pontnewydd ar Wy ynglŷn ag amhriodoldeb cyflwyno darnau ffilm ar gyfer Ymgyrch Snap wrth orfodi cyflymder.**

**Cam Gweithredu: Diweddaru’r Bwrdd Plismona ynglŷn ag arweinydd strategol Cymru (Prif Swyddog) ar gyfer Gan Bwyll.**

**Cam Gweithredu: Gwahodd Cydlynwyr y cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned i’r gynhadledd sydd ar fin cael ei chynnal.**

**Cam Gweithredu: Ian Price i anfon fersiwn PDF o’r cyflwyniad i’r PS.**

**Cam Gweithredu: Y Rhingyll Owen Dillon a’r Rhingyll Ian Price i weithio gyda’r Uwch-arolygydd Templeton a’r tîm galw mewn perthynas â chipio’r gwaith ataliol a gyflawnwyd gan yr Uned Plismona’r Ffyrdd / Gan Bwyll.**

Holodd y PSA pa un ai a yw SCHTh neu HDP wedi gweithio’n rhagweithiol gyda chwmnïoedd yswiriant ac fe’i cyfeiriwyd at y drafodaeth gynharach ynghylch Ymgyrch Tutelage. Holodd y PSA hefyd pa un ai a allai IP amlinellu’r effaith ar gyflenwi gwasanaeth arferol o ganlyniad i’r Prosiect Llwyth Llydan yn ystod haf 2017 pan gafodd rhannau ar gyfer Ffermydd Gwynt Brechfa eu gyrru o Cross Hands i Frechfa ar hyd yr A40. O ystyried natur eithriadol y gweithgarwch hwn, byddai’n cael ei ddatgelu yn y datganiad blynyddol o gyfrifon. Roedd hi hefyd yn bwysig deall cost lawn y gweithgarwch hwn wrth ystyried yr incwm a dderbyniwyd. Dywedodd OD bod rhai o’r swyddogion wedi gweithio sifftiau goramser ar rota oherwydd nifer cyfyngedig y beicwyr modur o fewn yr Heddlu ond bod y llwythi wedi’u tywys o fewn amser dyletswydd craidd hefyd, a oedd yn tynnu adnoddau i ffwrdd wrth blismona ffyrdd beunyddiol. Oherwydd gwaith parhaus ar alw o fewn yr heddlu, dywedodd y DBG ei bod hi’n hollbwysig fod OD ac IP yn ymgysylltu â’r tîm Galw er mwyn iddynt gael darlun clir o adnoddau, amser a llwyth gwaith Plismona’r Ffyrdd.

## 6. Materion yn Codi

### a) Llythyr Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu gan Russ Wolford

Roedd y CHTh wedi derbyn llythyr mewn perthynas â materion a godwyd mewn cyfarfod cynharach o Fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Nododd y

CHTh nad oedd yn fodlon bod y llythyr yn adlewyrchiad cywir o'i drafodaethau â Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Cyfeiriodd y CHTh at gydnabyddiaeth o bryderon lleol yn y llythyr gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig sut i fynd i'r afael â phryderon o'r fath.

Dywedodd y DBG fod angen asesiad o'r gwaith gweithredol. Gofynnodd y DBG am i sicrwydd gael ei geisio gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu na fyddai unrhyw newidiadau cytundebol yn effeithio ar wasanaeth HDP, ac am i waith modelu a wnaed gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i sefydlu'r effaith y soniwyd amdani gael ei gyflwyno.

**Cam Gweithredu: Yr Adran Gweithrediadau Arbenigol i gynnal asesiad o'r effaith gweithredol (lleoliadau) ar gau Canolfan Flaenweithredu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ym Mhen-bre.**

**Cam Gweithredu: Asesiad o'r trefniadau cytundebol ac oblygiadau safle Pen-bre pe bai'n cael ei gau.**

**b) Prosiect AIDENT**

Dywedodd y DBG bod y Grŵp Prif Swyddogion a'r Ditectif Uwch-arolygydd Dros Dro Ross Evans wedi bod yn trafod ffyrdd o wella dealltwriaeth HDP o Gaethwasiaeth Modern. Dywedodd y CHTh ei fod wedi agor cwrs Caethwasiaeth Modern o fewn yr heddlu'n bersonol bythefnos yn ôl. Dywedodd y DBG bod gweithgarwch yn digwydd ar y pwnc, gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal mewn perthynas â chreu tîm penodol i weithio ar Gaethwasiaeth Modern. Nodwyd mai'r CHTh Jeff Cuthbert oedd arweinydd CHTh Cymru ar Gaethwasiaeth Modern.

**Cam Gweithredu: I'w drafod yn y Grŵp Prif Swyddogion gyda'r Prif Gwnstabl yng ngoleuni'r llythyr i'r CHTh gan Brosiect Aident.**

**c) Gwobrau Tendr Unigol**

Cyflwynwyd dwy Wobr Tendr Unigol i'r Bwrdd. Roedd y gyntaf ar gyfer Cymorth Diogelwch y Ffyrdd sy'n derbyn arian grant sy'n mynd tuag at Gan Bwyll. Nododd y PSA bod y cytundeb wedi'i gaffael yn flaenorol trwy Abertawe fel ffynhonnell unigol o gyflenwad yn flynyddol. Holodd y PSA pa un ai a allai darparwyr eraill fod ar gael.

Gwasanaethau proffesiynol datrysiad wrth gefn TGCh –

Roedd yr ail gytundeb ar gyfer datrysiad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer gwasanaethau proffesiynol. Nododd y PSA fod y cytundeb hwn hefyd yn cael ei gwblhau ar sail flynyddol a holodd pa un ai a hwn oedd y datrysiad mwyaf effeithiol. Holodd y CHTh pa un ai a oedd cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar sail genedlaethol yn cael eu colli.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn fodlon i'r cytundebau gael eu cymeradwyo gyda golwg ar ymholiadau'n cael eu cytuno gyda'r PSA.**

### ch) Treth Brentisiaeth

Trafododd y Bwrdd lythyr gan Russell George AC sy'n eistedd ar y Pwyllgor Economi, Isadeiledd a Sgiliau yn y Cynulliad Cenedlaethol ac sydd wedi bod yn adolygu effaith y dreth brentisiaeth ar Gymru. Fel rhan o'r adolygiad, rhoddodd Eluned Morgan AC, y Gweinidog Dros Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, dystiolaeth. Cyfeiriodd y Pwyllgor at y ffaith bod trafodaethau rhwng y Swyddfa Gartref a'r Heddlu yng Nghymru'n parhau, a gofynnodd am wybodaeth er mwyn hysbysu ystyriaeth y pwyllgor. Roedd y wybodaeth yr oedd ei hangen yn cynnwys manylion trafodaethau parhaus ac amlinelliad o ddatrysiad a geisir gyda Llywodraeth Cymru. Awgrymodd y CHTh y dylid ymgysylltu â Cerith Thomas o Heddlu De Cymru er mwyn sefydlu pa un ai a oes modd ceisio ymateb Cymru gyfan.

**Cam Gweithredu: Drafftio llythyr i'w anfon at Russell George AC yn nodi bod ymateb Cymru gyfan yn cael ei geisio ar hyn o bryd i'w ymholiad ynglŷn â'r Dreth Brentisiaeth.**

**Cam Gweithredu: Drafftio e-bost i'w anfon at Cerith Thomas yn gofyn am ymateb Cymru gyfan i lythyr Russell George mewn perthynas â'r Dreth Brentisiaeth.**

### d) Adnoddau Teledu Cylch Cyfyng (TCC)

Nododd y DBG bod y prosiect TCC wedi'i drafod yng nghyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion ar 21 Mai. Dywedodd y DBG y dylid ystyried amsugnad adnoddau TCC i mewn i sefydliad cyfredol Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a gofynnodd o ble y daw'r gost ar gyfer gweithredu TCC ar yn ystod 2018/19 gan nad yw yn y gyllideb ar hyn o bryd ar gyfer y blynyddoedd hynny.

Holodd y CHTh beth oedd y strategaeth gyfryngau o gwmpas cyhoeddi'r ymgeisydd o ddewis ar gyfer y prosiect TCC. Dywedodd y CHTh ei fod eisiau i Dîm y Wasg yn Adran Cyfathrebu Corfforaethol DP i weithio gyda Thîm Ymgysylltu SCHTh ar y strategaeth gyfryngau.

Penderfynodd y Bwrdd y byddai'r prosiect TCC yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r BP ymhen pythefnos. Dywedodd y CHTh y byddai angen trafod yr ystyriaethau ariannol ar gyfer y prosiect ac adnoddau yn y cyfarfod hwnnw.

**Cam Gweithredu: Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a thîm ymgysylltu SCHTh i ddatblygu strategaeth wasg cyn cyflwyno'r isadeiledd TCC.**

**Cam Gweithredu: Marie McAvoy i ddiweddaru CHTh ynghylch unrhyw apeliadau yn ystod y cyfnod ymbwyllo, a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno yn weithredol.**

**Cam Gweithredu: Marie McAvoy i roi model gweithredu wedi'i gostio ar gyfer system TCC yr heddlu.**

## 7. Unrhyw Fusnes Arall

a) **Newidiadau i Agenda'r BP**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chael Adnoddau Dynol (AD) a Chyllid fel eitemau sefydlog bob mis ar agenda'r Bwrdd Plismona.

**Cam Gweithredu: CHTh i dderbyn adroddiadau ar Fyrddau eiledol mewn perthynas â materion ariannol ac adnoddau dynol.**

b) **Y sefyllfa o ran cydweithio mewn perthynas â gwasanaethau cyfreithiol**

Trafododd y Bwrdd y digwyddiad Gweledigaeth Cymru Gyfan, sydd wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2018, a fyddai'n canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mynegodd y CHTh rwystredigaeth mewn perthynas â'r cynnydd cyfredol o ran cydweithio a dywedodd nad oedd wedi gweld achos busnes ar gyfer y cynnig i gydweithio mewn perthynas â gwasanaethau cyfreithiol eto. Dywedodd y DBG fod gwaith wedi'i gyflawni er mwyn hysbysu'r penderfyniad, a chafwyd trafodaeth mewn perthynas â dichonolrwydd symud ymlaen â'r cydweithredu hwn. Byddai'n rhaid bod rheswm da ac achos busnes yn ei le a fyddai'n sicrhau y byddai gwasanaeth da'n cael ei gyflwyno i Ddyfed-Powys a'i gymunedau lleol.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i drafod y posibilrwydd o gydweithio mewn perthynas â gwasanaethau cyfreithiol gyda'r CHTh Alun Michael.**

c) **Y Cyd-uned Arfau Saethu**

Dywedodd y DBG y byddai'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd, Richard Lewis, (PGC) yn cadeirio'r Cyd-fwrdd Arfau Saethu o fewn yr Heddlu. Cafwyd trafodaeth ynghylch pa un ai a oedd Maes Tanio Arfau Saethu ar y Cyd rhwng Heddluoedd Cymru yn addas ar gyfer y diben. Nodwyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ddydd Gwener nesaf er mwyn trafod pryderon. Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â pha un ai a oedd Adran 22a o'r  ar gyfer maes tanio'n anaddas ar gyfer y diben gan fod peth gwaith gweithredol wedi'i hepgor o'r ddogfen.

**Cam Gweithredu: Y CC i fynd gyda'r PGC Richard Lewis i'r cyfarfod ar 1 Mehefin.**

ch) **Unedau 4 a 6**

Cafwyd trafodaeth ynghylch Cymal Ymneilltuo mewn perthynas â rhent. Cytunodd y Bwrdd fod angen trafodaeth er mwyn asesu beth yw'r cynllun o ran lletya dau safle a enwyd.

**Cam Gweithredu: Unedau 4 a 6 i fod yn eitem ar yr agenda ar gyfer diwrnod i ffwrdd SCHTh/Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar 5 Mehefin.**

d) **Rheoli fflyd IR3**

Hysbysodd y DBG y Bwrdd y bydd data ar reoli fflyd ar gael yng nghyfarfod nesaf y Cyd-fwrdd Asedau o fewn yr Heddlu.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/04/18 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2278** | **Gwasanaethau Pobl i gyflwyno'r polisi Diswyddo Gwirfoddol drafft i SCHTh.** | **Steve Cadenne** |
| **PB 2279** | **Y Comisiynydd i dderbyn cynllun y PG mewn perthynas â strwythur a nifer yr Uwch Swyddogion (DBG a Phrif Uwch Arol.)** | **Y PG Mark Collins** |
| **PB 2280** | **Sefydlu uwch swyddog arweiniol ar gyfer Ymgyrch Darwin o fewn yr Adran Gweithrediadau Arbenigol.** | **Yr Uwch-arolygydd Templeton** |
| **PB 2281** | **Llythyr i'w ddrafftio ar gyfer Cydlynydd Cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned Pontnewydd ar Wy ynglŷn ag amhriodoldeb cyflwyno darnau ffilm ar gyfer Ymgyrch Snap wrth orfodi cyflymder.** | **MH SCHTh** |
| **PB 2282** | **Diweddaru'r Bwrdd Plismona ynglŷn ag arweinydd strategol Cymru (Prif Swyddog) ar gyfer Gan Bwyll.** | **Y Rhingyll Ian Price** |
| **PB 2283** | **Gwahodd Cydlynwyr y cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned i'r gynhadledd sydd ar fin cael ei chynnal.** | **Y Rhingyll Ian Price** |
| **PB 2284** | **Ian Price i anfon fersiwn PDF o'r cyflwyniad i'r PS.** | **Y Rhingyll Ian Price** |
| **PB 2285** | **Y Rhingyll Owen Dillon a'r Rhingyll Ian Price i weithio gyda'r Uwch-arolygydd Templeton a'r tîm galw mewn perthynas â chipio'r gwaith ataliol a gyflawnwyd gan yr Uned Plismona'r Ffyrdd / Gan Bwyll.** | **Y Rhingyll Owen Dillon Y Rhingyll Ian Price** |
| **PB 2286** | **Yr Adran Gweithrediadau Arbenigol i gynnal asesiad o'r effaith gweithredol (lleoliadau) ar gau Canolfan Flaenweithredu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ym Mhen-bre.** | **Yr Uwch-arolygydd Templeton** |
| **PB 2287** | **Asesiad o'r trefniadau cytundebol ac oblygiadau safle Pen-bre pe bai'n cael ei gau.** | **Yr Uwch-arolygydd Templeton** |
| **PB 2288** | **I'w drafod yn y Grŵp Prif Swyddogion gyda'r Prif Gwnstabl yng ngoleuni'r llythyr i'r CHTh gan Brosiect Aident.** | **Yr Arolygydd Dros Dro Gwyndaf Bowen** |
| **PB 2289** | **Drafftio llythyr i'w anfon at Russell George AC yn nodi bod ymateb Cymru gyfan yn cael ei geisio ar hyn o bryd i'w ymholiad ynglŷn â'r Dreth Brentisiaeth.** | **MH SCHTh** |
| **PB 2290** | **Drafftio e-bost i'w anfon at Cerith Thomas yn gofyn am ymateb Cymru gyfan i lythyr Russell George mewn perthynas â'r Dreth** | **MH SCHTh** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Brentisiaeth.** | |
| **PB 2291** | **Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a thîm ymgysylltu SCHTh i ddatblygu strategaeth wasg cyn cyflwyno'r isadeiledd TCC.** | **Emma Northcote/ SCHTh** |
| **PB 2292** | **Marie McAvoy i ddiweddaru CHTh ynghylch unrhyw apeliadau yn ystod y cyfnod ymbwyllo, a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno yn weithredol.** | **Marie McAvoy** |
| **PB 2293** | **Marie McAvoy i roi model gweithredu wedi'i gostio ar gyfer system TCC yr heddlu.** | **Marie McAvoy** |
| **PB 2294** | **CHTh i dderbyn adroddiadau ar Fyrddau eiledol mewn perthynas â materion ariannol ac adnoddau dynol.** | **Steve Cadenne/CC Ed Harries** |
| **PB 2295** | **Y CHTh i drafod y posibilrwydd o gydweithio mewn perthynas â gwasanaethau cyfreithiol gyda'r CHTh Alun Michael.** | **CHTh** |
| **PB 2296** | **Y CC i fynd gyda'r PGC Richard Lewis i'r cyfarfod ar 1 Mehefin.** | **Yr Arolygydd Dros Dro Gwyndaf Bowen** |
| **PB 2297** | **Unedau 4 a 6 i fod yn eitem ar yr agenda ar gyfer diwrnod i ffwrdd SCHTh/Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar 5 Mehefin.** | **Y PS CM o SCHTh** |